PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 159 | Rhif 21 | Mai 21, 2026 | 50c.

## Hanesyddol



Yr oedd canlyniad etholiad Senedd Cymru ar 7 Mai yn wirioneddol hanesyddol. I lawer ohonom mae'n benllanw blynyddoedd o freuddwydio, ymdrechu a dyfalbarhau. Ers cyfnod yr egin-syniadau a dechrau'r ymgyrchu gan leiafrif bychan am hunanreolaeth i Gymru fe fu Annibynwyr yn ganolog i'r datblygiad. Seiliwyd eu dealltwriaeth ar egwyddorion Beiblaidd, mai rhan o gread Duw yw cenhedloedd a bod ganddynt hawl i edrych ar ôl eu buddiannau eu hunain. Ar ben hynny pwysleisiwyd yr egwyddorion Cristnogol o gariad, cyfiawnder a thegwch. Nid oes ond rhaid cyfeirio at Michael D. Jones, Gwynfor Evans, R. Tudur Jones a llu o bobl weithiodd yn ddygn er mwyn dod a chyfiawnder i Gymru. Diolchwn iddynt am eu llafur. Hefyd, tros y degawdau mewn trafodaethau a phenderfyniadau bu Undeb yr Annibynwyr yn gyson yn gofyn am ddatganoli ac am fwy o bwerau i'n cenedl.

Mae gwaith mawr i'w wneud gan lywodraeth newydd Plaid Cymru a dymunwn bob llwyddiant iddynt wrth arwain Cymru yn ystod y blynyddoedd nesaf. Dyma ddwy erthygl sydd yn bwrw golwg dros yr hyn sydd wedi digwydd yn wleidyddol yng Nghymru yn ddiweddar a'r newidiadau pellgyrhaeddol.

**(Gol.)**

## Gofal ein gwinllan mewn dwylo diogel

Ar nos Wener y cyfrif mawr, pan ddaeth hi'n amlwg mai Plaid Cymru fyddai'n arwain ein Senedd, roeddwn i yn seremoni urddo maer newydd Caerfyrddin yn hen Lys y Goron. Yn yr ystafell anferth ac ysblennydd honno y cynhaliwyd cyfrif isetholiad 1966 pan etholwyd Gwynfor Evans yn aelod seneddol cyntaf y Blaid. Dyna gychwyn 60 mlynedd o lanw a thrai cyn dod i'r penllanw presennol yn hanes Cymru. 'Sdim rhyfedd bod gwên lydan ar wyneb Heledd ap Gwynfor ar ddiwedd ei blwyddyn fel maer, a hithau hefyd newydd glywed am ailethol ei brawd Mabon i'r Senedd – y ddau yn blant i'r Parchg Guto Prys ap Gwynfor, oedd yn bresennol gyda'i wraig Siân nos Wener. Yno hefyd roedd Ceri 'Bethlehem' Evans, un arall o ŵyrion Gwynfor a Rhiannon, ac aelod newydd o gyngor tre Caerfyrddin. Mae'r maer newydd, Russell Sparks, yn enedigol o Loegr, yn gynghorwr sir a thref dros Blaid Cymru ac wedi dysgu Cymraeg. Ei gaplan yw'r Parchg Beti-Wyn James. Rydym yn aml yn barod i sôn am 'achlysur hanesyddol' ond roedd hynny'n sicr yn wir yng Nghaerfyrddin ac yn genedlaethol y noson honno.



### Dylanwad mam



Etholwyd Gwynfor yn Llywydd Undeb yr Annibynwyr yn 1953, ac mae dylanwad magwraeth Gristnogol yn drwm ar Rhun ap Iorwerth, Prif Weinidog newydd Cymru hefyd. Yn fab i Edward a Gwyneth Morus Jones, penderfynodd droi ei gefn ar yrfa ddisglair gyda'r BBC a sefyll isetholiad dros Blaid Cymru yn Ynys Môn yn 2013. Roedd Gwyneth yn flaenllaw a gweithgar mewn sawl maes yn genedlaethol, ac yn ddarpar lywydd yr Undeb pan fu farw o gancr yn 67 oed y flwyddyn gynt. Ar ôl ennill yr etholiad bryd hynny, dywedodd Rhun mai dylanwad a marwolaeth ei fam yn gymharol ifanc wnaeth iddo newid cwrs ei fywyd. O dan ei arweiniad, mae cwrs hanes Cymru wedi newid hefyd.

### Cenhadaeth o garedigrwydd

Yn ei araith gyntaf ar ôl cael ei ethol yn Brif Weinidog, dywedodd Rhun ap Iorwerth: 'Dwi'n dechrau'r daith yn wylaidd, yn ddyledus i gefnogaeth a chariad fy nheulu sydd yma heddiw, a fy mam sydd â'i dylanwad arnaf gymaint ag erioed.' Does dim rhyfedd bod ei dad Edward o dan deimlad wrth wrando. Ac roedd cyfeiriad Beiblaidd a gwerthoedd Cristnogol yn britho'i sylwadau: 'Mae Cymru yn winllan sydd wedi'i hymddiried yn ein gofal, a byddwn yn gofalu amdani. Byddwn yn troi'r genhadaeth honno o garedigrwydd a goddefgarwch yn gefnogaeth i'r rhai sydd ei hangen fwyaf. Mae rhywbeth newydd wedi ei danio yn enaid Cymru. Hyder newydd, gobaith newydd. Gorwel ehangach a newydd, na fydd yn cael ei gulhau byth eto. Fy addewid i bawb yw y byddaf yn arwain heb ragfarn neu ragdybiaeth.'

### Dyfodol ein gwinllan

Prin y bu mwy o wrthdaro safbwyntiau sylfaenol ers datganoli nac yn yr etholiad hwn. Mae agenda Reform yn groes i werthoedd nifer ohonom fel Cymry a Christnogion. Maen nhw'n gwadu'r hyn sy'n achosi newid hinsawdd; am droi i

*parhad ar dudalen 2*

# Gofal ein gwinllan mewn dwylo diogel – parhad

ffwrdd y sawl sy'n ffoi rhag erledigaeth; am breifateiddio elfen o'r Gwasanaeth Iechyd; a thorri budd-daliadau i bobl sy'n rhy sâl i weithio. Ond yn fwy na dim, roedd yr etholiad hwn yn frwydr rhwng Cymreictod a Phrydeindod – gyda chyfeiriad ein cenedl yn y fantol. Roedd geiriau Rhun am y 'winllan a roddwyd i'n gofal' yn llinell enwog o'r ddrama *Buchedd Garmon* gan Saunders Lewis – oedd yn ei dro yn adlais o Salm 80. Yn y ddrama, dilynir y ddelwedd o winllan gan yr apêl: 'Minnau yn awr galwaf ar fy nghyfeillion, cyffredin ac ysgolhaig, deuwch ataf i'r adwy, sefwch gyda mi yn y bwlch, fel y cadwn i'r oesoedd a ddel y glendid a fu.' Ymateb i'r alwad yna wnaeth cannoedd o filoedd o bobl Cymru yn yr etholiad rhyfeddol hwn, gyda nifer fawr yn troi'u cefnau ar eu teyrngarwch oesol i'r Blaid Lafur er mwyn ymuno â chefnogwyr Plaid Cymru i rwystro'r bygythiad difrifol i natur ein gwlad – ein gwerthoedd, ein sefydliadau a'n hiaith, sef y 'foreign language' chwedl Nigel Farage. 'Safwn yn y bwlch' oedd anthem fawr Hogia'r Wyddfa: 'Dros ein iaith, dros ein gwlad, dros ein pobl dros ein plant, gyda'n gilydd fe safwn ni.' A dyna wnaeth 444,000 o etholwyr Cymru ar 7 Mai 2026.

**Alun Lenny**

# Cyffro Etholiad 2026 a chyfrifoldebau

Llongyfarchiadau mawr i Rhun ap Iorwerth nid yn unig ar gael ei ethol unwaith eto i Senedd Cymru, ond hefyd ar fod yn arweinydd y blaid ag iddi'r nifer mwyaf o seddi yn y Senedd honno wedi'r etholiad ar 7 Mai. O ganlyniad i hyn, etholwyd Rhun yn Brif Weinidog Cymru ar ddydd Mawrth, 12 Mai. Llongyfarchiadau mawr iddo ar hynny hefyd, a phob dymuniad da.

Yn fab i Edward a'r diweddar Gwyneth Morus Jones, gwyddom cymaint y mae hyn yn ei olygu i'w dad ac i'w deulu, ac i gymaint ohonom ninnau fel Annibynwyr. Bu Gwyneth, ei fam, am gyfnod yn Gadeirydd Cyngor Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, ac etholwyd hi'n



Ddarpar Lywydd yn Undeb Biwmares yn 2011. Bu'n hynod weithgar gyda'r Undeb, yn arbennig yn ei hymwneud â Chyngor y Genhadaeth Fyd-eang, a theimlai'n gryf dros ferched Dalit yn India gan ysgrifennu amdanynt ac ymgyrchu o'u plaid. Tristwch a siom affwysol i ni oedd i afiechyd ei goddiweddyd cyn iddi gael ei hurddo'n Llywydd, ond a minnau yn Ysgrifennydd Cyffredinol pan yr oedd yn brysur yn ein plith, byddaf yn cofio am ei chyfraniad, ei chefnogaeth a'i chyfeillgarwch tra byddaf byw. Coffa da amdani.

Yr oedd yr Etholiad ar 7 Mai yn teimlo'n dra gwahanol i etholiadau'r gorffennol. Yr oedd dau reswm am hynny. Y cyntaf oedd bod y wasg wedi darogan yn bur gyson am rai misoedd cyn y pleidleisio y byddai'r Blaid Lafur yn wynebu colledion enfawr. Yr oedd hynny'n fater o bwys oherwydd mai hi oedd y blaid oedd wedi bod yn llywodraethu Cymru yn ddi-dor ers sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol yn ôl ym 1999.

### Dadfeiliad a bygythiad

Gwta ddwy flynedd yn ôl, nid oedd neb wedi rhagweld y byddai'r dadfeiliad hwn yn digwydd, ond oherwydd methiannau'r Prif Weinidog Kier Starmer a'i lywodraeth yn Llundain, yr oedd y Blaid Lafur wedi dod mor amhoblogaidd fel bod etholwyr yn cefnu arni yn eu miloedd ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig.

Yr ail reswm oedd bod plaid arall wedi dod i amlygrwydd yn ddiweddar, sef Reform UK. Gyda'i syniadau adain dde, yr oedd hon wedi llwyddo nid yn unig i dynnu sylw ati ei hun, ond i ennill cefnogaeth mewn rhai cylchoedd. Ar ben hynny, gyda chymaint wedi eu dadrithio yn y ddwy blaid fawr yn Lloegr, y Ceidwadwyr a Llafur, darparodd Reform UK ffordd i etholwyr gosbi'r pleidiau hynny, tra ar yr un pryd roi mynegiant i'w hanfodlonrwydd. Ac, wrth gwrs, yr oedd yma yng Nghymru bobl oedd am fabwysiadu'r dacteg hon, a'r darogan yn y wasg oedd y byddai Reform UK yn gwneud yn dda.

### Dylanwadau

Ond yr oedd sôn hefyd y byddai Plaid Cymru yn gwneud yn dda, a diau fod hynny wedi apelio at lawer. Mae'n debygol hefyd bod YesCymru wedi bod â rhan mewn ennill cefnogaeth, a'r Wal Goch hithau wedi chwarae ei rhan ar y maes pêl-droed. Ac os bu i rai ddewis pleidleisio i Blaid Cymru fel rhan o'r brotest yn erbyn Llafur ac i rwystro Reform UK rhag dod i rym, yna yr ydym yn ddiolchgar iddynt am hynny ac yn gobeithio y byddant yn ymgartrefu yn ein plith.

### Prif Weinidog

Wrth i ni ddymuno'n dda i Rhun ap Iorwerth yn ei waith, a sylweddoli fod y baich cyfrifoldeb sydd ar ei ysgwyddau nid yn unig yn fawr ond yn drwm, dymunwn fendith Duw arno yn helaeth, ac nid arno ef yn unig ond ar y Senedd yn ei chyfanrwydd wrth iddi ymgymryd â'i gwaith hithau.

Bydded iddi gofio mai yn ei dwylo hi y mae gofal dros y cleifion a'r henoed, ac mai hi sy'n gyfrifol am addysg a lles plant ac ieuenctid ein gwlad. Mae angen iddi weithio'n ddyfal dros yr anghenus a'r tlawd, y dryslyd a'r clwyfedig, tra ar yr un pryd yn hybu ein hiaith a'n diwylliant, a'n hunaniaeth fel cenedl. Mae dirfawr angen iddi alluogi diwydiant, busnes a masnach i ffynnu heb wneud niwed i'r amgylchedd, a chreu swyddi diogel i'n pobl. Ac at hynny, mae angen iddi fod yn llais eglur a chlir i ni fel cenedl, nid yn unig o fewn y Deyrnas Unedig, ond ymhlith y cenhedloedd.

Er mai cenedl fechan ydym, y mae gennym ddigon i'w ddweud am rinweddau fel goddefgarwch, chwarae teg, cyfiawnder, graslonrwydd a heddwch. Cyfrifoldeb y Senedd, a'r pleidiau o bob lliw, yw nid yn unig wrando ar ein lleisiau ni, ond gwneud yn siŵr hefyd fod ein llais ni fel Cymry yn cael ei glywed ar bob achlysur y bydd cyfle'n dod, i'n daliadau a'n profiadau, ein dealltwriaeth arbennig o amgylchiadau a sefyllfaoedd, ynghyd â'n barn fel cenedl, gael eu mynegi.

Ac yn y dasg honno eto, fel Prif Weinidog ac arweinydd, yr ydym yn dymuno'n dda i Rhun ap Iorwerth a'i lywodraeth.

**Geraint Tudur**
**Bangor**

Yr Adran Gydenwadol

21 Mai 2026
Rhifyn 273

I ddarllen y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn cliciwch isod:
www.cennad.cymru

## Croeso mawr ym Môn ar gyfer Eisteddfod yr Urdd

Mae Eisteddfod yr Urdd yn ymestyn i fod yn ŵyl saith diwrnod eleni, a hynny am y tro cyntaf erioed. Cynhelir yr ŵyl ar Gae Sioe Môn, ger Gwalchmai, o ddydd Sadwrn, 23 Mai, tan ddydd Gwener, 29 Mai.

O ganlyniad i'r diwrnod ychwanegol, bydd newid i drefn cystadlaethau'r wythnos, gan ddechrau gyda'r cystadlaethau ar gyfer pobl ifanc, a diweddu'r wythnos gyda'r plant ifanc. Cynhelir gŵyl Triban dros y penwythnos cyntaf, gyda rhaglen lawn o fandiau yn cymryd rhan.




### Croeso'r eglwysi a'r ysgolion Sul

Yn ôl yr arfer, bydd gan Cytûn: Eglwysi ynghyd yng Nghymru a Chyngor yr Ysgolion Sul bresenoldeb ar y maes. Os byddwch yn dod i'r Eisteddfod, cofiwch alw i mewn i'n gweld.

Bydd yna groeso yn eich disgwyl, gyda digonedd o weithgareddau ar gyfer pob oed. Bydd cynrychiolwyr o ysgolion Sul ac eglwysi Môn ar y stondin, yn barod i rannu eu fferins a'u *freebies* i bawb fydd yn galw heibio.

Byddwn yno o 9 tan 6 bob dydd dros gyfnod o saith diwrnod. Croeso cynnes i bawb alw heibio.

## Ffilm Gristnogol o Gymru yn ennill gwobr yng Ngŵyl Ffilmiau Gristnogol yn Florida

Bydd ffilm animeiddiedig ddwyieithog am ddau o seintiau mwyaf adnabyddus Cymru yn cael ei dangos am y tro cyntaf yn Gymraeg yn ystod Oedfa'r Urdd, gwasanaeth Sul Eisteddfod yr Urdd, ar 24 Mai 2026 ar Faes Sioe Môn.

Enillodd *Stori Cybi a Seiriol* wobrau am y Ffilm Addysgol Orau a'r Ffilm Animeiddiedig Orau yng Ngŵyl Ffilm Gristnogol 2026 sydd wedi'i lleoli yn Florida.

Mae'r ffilm yn dilyn hanes Seintiau Cybi a Seiriol, dau ffigwr o'r chweched ganrif y bu eu ffydd a'u cyfeillgarwch yn helpu i lunio bywyd Cristnogol yng Nghymru. Mae'n olrhain taith Cybi o Jerwsalem i Ynys Môn a thaith Seiriol drwy Gymru, gyda'r ddau sant yn cyfarfod wrth Ffynnon Clorach yng nghanol Ynys Môn.




Mae'r ffilm yn defnyddio animeiddio ac awyrluniau i ddod â straeon y seintiau'n fyw ar draws ffynhonnau sanctaidd, mynachlogydd a thirwedd arfordirol. Cafodd ei chynhyrchu yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Cafodd Stori Cybi a Seiriol ei chynhyrchu a'i chydysgrifennu gan Nia Elain Roberts, Swyddog Addysg Ysgolion Esgobaeth Bangor, a Hywel Griffiths, a fu hefyd yn gyfrifol yr animeiddio. Nia sy'n darparu'r naratif, gyda'r Parchedig Ganon Emlyn Williams yn rhoi llais i Gybi.

Bydd y dangosiad yn rhan o Oedfa'r Urdd, sy'n canolbwyntio ar thema pererindod. Bydd Erin Pererin, canllaw pererindod ffuglennol i blant a grëwyd gan Nia ac a chwaraeir gan aelod o gôr Ysgol Sul Môn, yn cyflwyno'r oedfa. Bydd perfformiadau gan Gôr Ieuenctid Môn a chôr Ysgol Sul Môn hefyd yn rhan o'r gwasanaeth.

Y ffilm yw'r adnodd diweddaraf ar wefan https://pererinysgolion.cymru/, gwefan a ddatblygwyd gan Esgobaeth Bangor sy'n darparu adnoddau addas yn ôl oedran ar bererindod Gristnogol, seintiau a mannau sanctaidd i gefnogi'r cwricwlwm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (RVE).




*Cyhoeddir Cenn@d ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg*

# Erin Pererin

Mae Erin Pererin yn ymddangos ar draws y wefan, gan arwain plant drwy'r adnoddau a'u cyflwyno i'r syniad o bererindod a threftadaeth Gristnogol Cymru. Mae'r prosiect yn rhan o waith ehangach yr Esgobaeth i annog ymgysylltiad â phererindod a mannau sanctaidd, ar adeg pan fo diddordeb mewn pererindod wedi cynyddu yn dilyn cyfres *Pilgrimage* y BBC.



Erin Pererin





Dywedodd Nia ei bod eisiau i blant ddeall yr hanes y tu ôl i'r eglwysi yn eu cymunedau eu hunain: "Mae eglwysi yn ganolfannau pwysig i'r ffydd Gristnogol, ond maen nhw hefyd yn ein dysgu am ein treftadaeth. Roedd seintiau Cymreig fel Cybi a Seiriol yn gweld mai adeiladu cymunedau, cryfhau ffydd, a helpu eraill oedd y ffordd ymlaen."

Wrth sôn yn benodol am hanes Cybi, dywedodd, "Ar ôl marwolaeth ei dad, gwrthododd Cybi y cyfle i ddod yn frenin Cernyw a dewis yn hytrach ddilyn bywyd o ffydd. Mae ei hanes yn dangos bod ei gred yn Nuw yn bwysicach iddo na grym, ac mae hynny'n parhau'n neges ysbrydoledig heddiw."

Yr haf hwn bydd Llwybr Cybi a Seiriol yn cael ei lansio, sef llwybr pererindod newydd ar Ynys Môn sy'n dilyn ôl traed y ddau sant drwy eglwysi, ffynhonnau sanctaidd a thirweddau arfordirol yr ynys.

Gall ysgolion ymweld â PererinYsgolion.cymru i gael adnoddau sy'n cefnogi'r cwricwlwm CGaM.



**Bydd Oedfa'r Urdd yn cael ei chynnal yn y Pafiliwn Gwyrdd ar faes y Brifwyl ddydd Sul am 9.15 y bore.**


## YSBRYD Y PENTECOST

Mewn llawenydd a moliant dathlwn dy ddyfodiad di,
Ysbryd Sanctaidd Duw, Ysbryd grym a goleuni,
Ysbryd gras a bywyd.
Tyrd fel gwynt nerthol i'n hadnewyddu;
tyrd fel tân nefol i'n puro; tyrd fel anadl Duw i'n bywhau;
tyrd fel colomen a rhoi i ni dangnefedd.
Tyrd, Ysbryd Glân, i'n c'lonnau ni a dod d'oleuni nefol.
Rhown ddiolch a mawl i ti, O Dduw,
am yr amrywiol ffyrdd yr wyt yn datguddio dy hun
ac yn gweithredu yn dy fyd ac yn dy Eglwys.
Yn arbennig, diolchwn am dy ymwneud â ni
trwy dy Ysbryd Glân: am ei rym yn y greadigaeth,
yn dwyn trefn o anhrefn a goleuni o dywyllwch,
ac am ei egni creadigol yn ein bywyd ni.
Diolchwn am iddo ysbrydoli'r proffwydi i lefaru dy Air
ac arwain dy bobl i ddeall dy ewyllys.
Diolchwn am iddo ddisgyn ar Iesu yn ei fedydd
i'w arfogi ar gyfer ei weinidogaeth
ac i'n harwain ninnau i'w adnabod a'i ddilyn.
Diolchwn am iddo ymdywallt ar dy ddisgyblion
ar y Pentecost cyntaf i'w gwisgo â grym i dystio i ti
ac i adnewyddu a bywhau dy Eglwys heddiw yn ei gwaith.
Diolchwn am ei oleuni a'i arweiniad yn hanes y
ddynoliaeth; yn natblygiad gwareiddiad,
yn narganfyddiadau'r gwyddonydd,
yng ngweledigaeth y bardd a dawn yr artist.
Diolchwn am ei bresenoldeb a'i nerth yn ein bywydau
ninnau, yn ein harwain i adnabod a chredu yn Iesu,
yn ein cynnal yn ein hargyfyngau
ac yn ein hysbrydoli i ymroi i waith dy deyrnas.
Arglwydd, agor ein calonnau a'n meddyliau
i'w anadliadau bywiol ac i'w egnïoedd a'i ddoniau.
**Ysbryd Sanctaidd – Ysbryd nerth ac adfywiad:**
ymwêl â'th Eglwys
i'w deffro o'i chysgadrwydd
a'i gwneud yn dyst ffyddlon ac effeithiol i'r Efengyl.
**Ysbryd Sanctaidd – Ysbryd tangnefedd:**
arwain bobl ym mhobman i heddwch a chytgord;
gwared nhw o bob gormes a chreulondeb
ac arwain genhedloedd y ddaear i undod teulu Duw.
**Ysbryd Sanctaidd – Ysbryd diddanwch a chysur:**
bydd yn nerth i'r gwan a'r tlawd;
bydd yn gwmni i'r unig a'r rhai sydd mewn tristwch;
bydd yn arweinydd i'r rhai sydd ar goll mewn anobaith.
**Ysbryd Sanctaidd – Ysbryd gallu a gwirionedd:**
gorchfyga ein hofnau a gwna ni'n wrol ynot ti;
rhyddha ni o'n difaterwch a'n syrthni
ac ennyn fflam ar allor ein heneidiau.
**Ysbryd Sanctaidd – Ysbryd Crist:**
tyn ni i bresenoldeb ein Harglwydd Iesu;
mwyda'n calonnau caled yn llifeiriant ei gariad;
ysguba ymaith ein pechodau â'i faddeuant
a llanw ni â nerth a llawenydd ei fywyd.
Yr wyt ti fel gwynt yn chwythu lle y mynni,
yn dod atom ar hyd llwybrau anhysbys ac annisgwyl,
yn cyffwrdd â ni yn holl brofiadau ein bywyd;
tyrd atom ni yn awr, ac aros gyda ni dros byth. Amen.

*Elfed ap Nefydd Roberts (o Cymer fy Munudau)*

# Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26




## Codi'r Llen 23

## Ymgom Esther

Fe gofiaf arogl olewydd a phersawr y palas yn nofio ar yr awel rhwng y llenni sidan. Sibrydwyd f'enw'n ofalus gan y gweision wrth imi gyrraedd. Teimlais fod rhywbeth ar droed.

Fedrwn i ddim credu bod merch amddifad fel fi wedi'i dewis. Hadassa oedd fy enw cyn imi gael fy ailenwi'n Esther. Cefais fy siapio gan golled ymhell cyn imi etifeddu gwisg frenhinol. Bu farw fy rhieni a minnau'n ifanc; dysgais sut y mae galar yn tawelu rhywun. Efallai'n wir mai dyna sut y medrais ymdopi â'r palas. Yno byddai merch sy'n gwybod pryd i siarad yn cael ei pharchu, a rhywun sy'n gwybod pryd i aros yn dawel yn blodeuo.

Do'n i ddim eisiau mynd at y brenin. Un oeddwn ymysg llawer. Cawsom ein casglu fel blodau o'r gerddi, wedi ein neilltuo ar gyfer ein barnu gan y brenin. Roedd yr ofn yn llygaid rhai o'r merched yn glir: gweddïodd ambell un, wylodd eraill, breuddwydiodd rhai am gael eu dewis. I mi, cadw'n fyw oedd y nod.

Rywsut derbyniais ffafr y brenin. Bu'r paratoi'n hir: chwe mis o gael triniaethau croen a phuro, a chwe mis arall o gael fy mhersawru a'm coluro. Yna, yn sydyn, roedd y goron am fy mhen a phawb yn ymgrymu imi. Ond ni all unrhyw goron ddiddymu unigrwydd. Roedd pob gwên o fewn y muriau crand yn cuddio bygythiad, a phob clod yn cario cynllwyn. Dechreuais deimlo'n ansicr yn fy harddwch, er i'r brenin fy ngharu.

Drwy'r cyfan, roedd Duw'n symud, fel y mae bob amser, yn y cefndir a than yr wyneb. Ni ddaeth mellt na tharan, agorodd y môr mo'i eigion; doedd dim colofn o dân na pherth yn llosgi. Ond roedd dewisiadau i'w gwneud. Dewrder. Amseru. Dwylo tyner yn cymell pobl benodol.

Yna, daeth y frawddeg a'm hysgydwodd. Gwas ynganodd y geiriau: "Paid â meddwl y cei di dy achub oherwydd dy fod yn byw yn y palas." Gwyddwn mai Mordecai oedd piau'r neges mewn gwirionedd. Fe oedd yr un oedd yn fy nghysgodi, heddiw fel erioed. Roedd yn rhaid imi fynd i stafell y brenin. Ond doedd neb i fod i wneud hynny heb wahoddiad, neb! Pe byddai'r brenin yn cynnig ei deyrnwialen aur imi, yna byddwn yn saff. Ond fe allwn gael fy lladd. Brenhines neu beidio.

Yna daeth y frawddeg nesaf. "Falle mai dyma'n union pam wyt ti wedi dod yn rhan o'r teulu brenhinol ar yr adeg yma!" Ar yr adeg yma. Nid i dderbyn trysorau, gemwaith a chlod, ond i ddal ar y foment hon pan fo fy mhobl yn byw dan warchae ofn.

Dyna pryd y penderfynais ymprydio. Gall newyn atgoffa'r enaid o'r angen am gryfder mewnol. Am dri diwrnod bûm yn gwacáu fy hun, yn gwaredu'r sicrwydd hyd nes bod dim ar ôl ond ufudd-dod.

Wrth gerdded i mewn i'r llys, crynai fy nghoesau o dan fy ngwisg hardd. Rhifais bob anadl, clywais y distawrwydd. Yna, cododd y brenin ei deyrnwialen tuag ataf. Fe allwn fod wedi dathlu'r goncwest honno yn y fan a'r lle, ond roedd mwy i'w gyflawni. Gofynnais i'r brenin am wledd, a chytunodd. Es ati i baratoi.

Wrth y bwrdd, gwyliais Haman – yr un drwg – yn ymffrostio. Gwn mai byr fyddai ei hoedl. Wrth imi rannu am dynged fy mhobl, teimlais yr awyrgylch yn newid. Clywais gamau cyfiawnder nefol yn atseinio drwy'r lle. Chafodd enw fy Nuw mo'i ddweud ar goedd, ond roedd E'n bresennol. 'Dyw tawelwch ddim bob amser yn dynodi absenoldeb.

Merch amddifad oeddwn i mewn lle estron. Brenhines yn llechu'n ddewr tu ôl i furiau palas. Merch yn crynu o flaen y brenin. Ces fy newis gan Dduw ac roedd hynny'n fwy grymus na'r holl harddwch yn y byd i gyd!

**Holi**

- Gall siarad dros y gwir beryglu ein cyfforddusrwydd, ein perthnasau, ein diogelwch. Sut mae stori Esther yn herio ein meddwl, ein sefyllfaoedd, ein bywydau?
- Atgoffwyd Esther am y posibilrwydd fod gan ffawd ran i'w chwarae yn ei stori. Beth yw eich barn am ffawd?
- Nid oes sôn am Dduw yn stori Esther. Oes gennych brofiad o deimlo Duw yn gweithio tu ôl i'r llen, yn dawel?
- Paratôdd Esther ei hun drwy ympryd, gweddi, a myfyrio. Allwn ni ddysgu o'i hesiampl? Pa fathau o ddisgyblaeth ydych chi'n eu harddel fel unigolion ac fel eglwys?
- Ydyn ni'n ddigon doeth a dewr fel Cristnogion heddiw?

**Gweddi**

Diolch dy fod, O Dduw,
bob amser ar waith o'n mewn.
Rho inni'r ffydd i ymddiried ynot Ti.
Cryfha ni i fyw'n eofn,
i garu'n llwyr,
ac i fod yn barod ar yr adeg iawn.
Amen.

*Sian Meinir*

**Cyhoeddiadau Radio a Theledu, 24 Mai 2026**

**Radio Cymru**

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 24 Mai, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Noa Evans, Caerdydd

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 24 Mai am 12:00yp**
Oedfa Eisteddfod yr Urdd

*S4C Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 24 Mai, am 9.00yh – Maethu**
Lisa fydd yn nodi Pythefnos Maethu 2026 ac yn tynnu sylw at y gwaith hanfodol sy'n cael eu wneud gan ofalwyr. Bydd hi yn y Bala yn treulio amser yng nghwmni teulu arbennig sy'n agor eu cartref ac yn rhoi ffydd ar waith, drwy roi gobaith i blant a phobl ifanc mewn cyfnodau ansicr.

# Gweddi'r Sulgwyn

Tyrd, Ysbryd Glân, i'n c'lonnau ni a dod d'oleuni nefol.

Tyrd, Anadl ein Tad i'n bywhau â bywyd newydd ynot ti.

Tyrd, Ysbryd Iesu yn dy lendid i'n puro o bob amhurdeb sydd wedi ymgartrefu ynom.

Tyrd, Ddyfroedd Bywiol i ddiwallu ein syched amdanat.



Tyrd, Gwynt Nerthol i chwythu ymaith pob anwiredd sydd ynom.

Tyrd, Y Diddanydd i'n deffro o drwmgwsg ein difaterwch.

Tyrd, megis ein Heiriolwr i sefyll yn ein hymyl a chydio yn ein llaw wrth i ni wynebu pob siom a phob storm ddaw i'n rhan.

Tyrd, megis ein Gobaith am Gymdeithas yr Ysbryd Glân

Gwna ni'n fwy cytûn o fewn cynhesrwydd dy gwmni i weithredu Dy ewyllys yn ein bywyd ac yn y byd.

Ysbryd y Gwirionedd, na allwn ni na'r byd dy wir amgyffred,

A wnei di plîs gyffwrdd a'n calonnau â syfrdandod dy ddyfodiad.

Llanw ni a gwir ddyhead am dy dangnefedd ysgytwol Di;

Tania ni ag awydd i lefaru a rhannu dy air a'th addewid ffrwydrol Di trwy ac yn enw yr Iesu Eneiniog. Amen.

### Gweddi o eiriolaeth dros gymod a heddwch

**Arweinydd:** Deuwn atat, Arglwydd trugarog, gyda phryder a gofid ynghylch yr ymrafael milwrol mileinig ac ehangach sy'n digwydd mewn sawl rhan o'n byd.

**Cynulleidfa:** Teimlwn yn ddiymadferth, diamddiffyn, digalon a thrist wrth i ni glywed a gweld ar y cyfryngau yr erchyllterau sy'n digwydd yn y gwledydd hyn.

**Arweinydd:** Cywilyddiwn o glywed arweinyddion sy'n mynnu yn agored ac yn haerllug bod rheidrwydd i ddial.

**Cynulleidfa:** Mae'n dristwch mawr fod cynifer o bobl a phlant yn cael eu lladd yn ddyddiol, gan y bomiau a'r taflegrau dieflig.

**Arweinydd:** Gweddïwn ac eiriolwn ar ran dioddefwyr diniwed gan obeithio a gweddïo bydd y rhai creulon sy'n gyfrifol yn ystyried o ddifrif calon, ganlyniadau gwaedlyd eu polisi a'u penderfyniadau anfoesol i ddial.

**Cynulleidfa:** A oes modd argyhoeddi'r arweinyddion hyn pa mor annerbyniol a chreulon yw eu polisïau a'u penderfyniadau i ledaenu a dwysau'r rhyfela a'r dioddefaint dychrynllyd?

**Arweinydd:** Arglwydd heddwch a chymod, a oes modd i ti a ni, fod o gysur a chymorth i'r trueiniaid hyn yn eu cyfyngder a'u tristwch, i'w hamddiffyn rhag mwy o ladd a dinistr? Amen.

**Gwilym Wyn**

# Croesawu a dathlu'r Sulgwyn

Wrth i'r Sulgwyn nesáu, mae fy nghalon yn cynhesu. Yn anorfod, mae atgofion amhrisiadwy yn llifo ac yn rhuthro i ddyfnder celloedd y cof. Teithiaf yn ôl i 1977 pan oeddwn yn weinidog ifanc a dibrofiad yn Gibea, Brynaman ble, er mawr dristwch, ni chynhelir oedfaon bellach. Pan euthum yno ym 1974, sefydlwyd gofalaeth newydd yno gyda'r ferch-eglwys Bethania, Rhosaman. Ar ôl ond tair blynedd fel bugail ar bron i 600 o aelodau, ymdeimlais ag annigonolrwydd personol oedd yn fy nhristau a'm digalonni. Rhan o hynny oedd gofynion bugeiliol trwm yn ymweld ag o leiaf dri ysbyty o fewn pymtheg milltir o Frynaman, yn ogystal ag ymweliadau mewn cartrefi gofal ac aelwydydd yr aelodau yn y pentref.

Yn ystod haf 1977 cefais gyfle i ymweld ag Eglwys St Michael-le-Belfrey yn Efrog, ac aros yno am wythnos yng nghartref un o'r teuluoedd ymroddedig oedd yn aelodau ffyddlon. Yn ddi-oed, cysylltais â'r Parchg Saunders Davies, (a etholwyd yn Esgob Bangor yn ddiweddarach) i holi am fwy o fanylion am 'Yr Wythnos o Adnewyddiad Ysbrydol' yn Efrog dan arweiniad y Parchg David Watson. Roedd ef ar y pryd yn ficer gweithgar, arbrofol a dylanwadol yn Efrog a thrwy ei genhadaeth rymus mewn



prifysgolion a mannau eraill ym Mhrydain ac yn rhyngwladol. Roedd yn brofiad braf iawn i ymuno â chriw hyfryd a chyfeillgar o'n cyd-Gymry ar ein pererindod dros y ffin yng ngogledd Lloegr. Cawsom groeso brwd a thwymgalon gan David Watson a'r gynulleidfa, fel y profodd ugeiniau o ymwelwyr eraill.

### Adnewyddiad ysbrydol

Fel y gallwch ddychmygu, roedd thema'r cyfarfodydd yn apelio ataf yn fawr, yn arbennig oherwydd fy rhwystredigaethau a phwysau 'bagad gofalon bugail' mewn gofalaeth mor niferus. Yn ystod yr wythnos yn Efrog, roedd seminarau, cyrddau gweddi a'r astudiaeth Feiblaidd yng nghartrefi aelodau. Buom yn sgwrsio, rhannu profiadau personol, ac yr oedd gweithgareddau diddorol a deniadol gan yr aelodau, yn arbennig, y myfyrwyr a'r bobl ifanc. Roeddent hwy yn rhan mor ganolog o fywyd egnïol a bywiog y gynulleidfa yn y gwasanaethau cymun ar y Sul wrth estyn allan i blith trigolion ac ymwelwyr yn y ddinas hardd.

Roedd treulio'r wythnos yng nghwmni aelodau bywiog a llawen yr eglwys yn gyfrwng i gyfoethogi a dyfnhau fy nealltwriaeth o realiti a pherthnasedd ein perthynas â'r Ysbryd Glân. Dylwn gyfaddef, mai dealltwriaeth ymenyddol ac athrawiaethol oedd gen i o ysbryd egnïol Iesu yn fy mywyd cyn hynny. Yn fuan ar ôl cyrraedd Efrog ymdeimlais ag ansawdd ysbrydol bywyd y teulu roeddwn yn cael y fraint o aros ar eu haelwyd yn ogystal â'r degau o'u cyd-gymunwyr a gyfarfyddais.

Tasg anodd iawn weithiau yw disgrifio a chyfleu yn glir ac yn foddhaol rhai o'n profiadau mwyaf dwys mewn bywyd. Yn syml, agorwyd fy llygaid i realiti ymwybyddiaeth ac ymateb diolchgar a brwd aelodau'r gynulleidfa i weinidogaeth a dylanwad Ysbryd Iesu yn eu calonnau ac yn eu cymdeithas â'i gilydd.

Bron hanner can mlynedd yn ddiweddarach, dwi'n cyfrif fy mendithion ac yn trysori'r atgofion am y profiad a'r anrhydedd o fod yn dyst i'r modd gall egni Ysbryd Iesu harddu bywydau unigolion ac

*parhad ar y dudalen gefn*

# Barn Annibynnol

## Tân sy’n newid bywydau: neges y Pentecost i Gymru heddiw

### Tân sy’n newid pobl

Mae Gŵyl y Pentecost yn ein newid ni. Mae’n rhaid iddo. Nid dathliad calendr yn unig yw, ond tystiolaeth fyw fod gennym Dduw byw sy’n gofalu amdanom ni ac sy’n aros gyda ni. Yn y Beibl darllenwn: ‘Ac yn sydyn dyma nhw’n clywed sŵn o’r awyr, fel gwynt cryf yn chwythu ... Ac wedyn roedd fel petai rhywbeth tebyg i fflamau tân...’ (Actau 2:2–3)

Dyna’r un Duw a oedd gyda’r disgyblion yn Jerwsalem – yn datgelu ei hun drwy dân. Dyna’r un Duw a oedd yn golofn dân yn yr Hen Destament, yn arwain ei bobl trwy dywyllwch ac ansicrwydd. A heddiw, mae’r un tân yn ein cynnal ni!

### Tân sy’n ein grymuso

Yn ein byd cymysglyd, tywyll a dryslyd, mae’n hawdd teimlo’n wan. Ond mae’r Ysgrythur yn ein hatgoffa: ‘Dydy Duw ddim wedi rhoi ei Ysbryd i ni fod yn llwfr, ond i’n gwneud ni’n gryf, yn llawn cariad ac yn gyfrifol.’ (2 Timotheus 1:7) Heb nerth yr Ysbryd Glân – y Cysurwr – ni allem hyd yn oed fod yn Gristnogion. Mae’n ein cynnal, yn ein goleuo, ac yn ein grymuso i sefyll dros y gwirionedd mewn byd sy’n aml yn troi ei gefn arno.

### Gweddi dros Gymru a’i harweinwyr

Yn ddiweddar, gwelsom Rhun ap Iorwerth yn dod yn Brif Weinidog Cymru. Boed i Ysbryd Duw fod gydag ef. Boed iddo dderbyn doethineb, tosturi a nerth i arwain ein cenedl. Gadewch inni fel



Cristnogion weddïo dros ein harweinwyr, gan gynnwys Rhun – nid beirniadu o’r cysgodion, ond cefnogi o’r galon. ‘O! Tyred Ysbryd Glan..!’

### Ailddarganfod traddodiad: parti Pentecost

Yn ein capel ni, rydym wedi ailgynnau hen draddodiad – Parti Sulgwyn. I fod yn onest, roedd hyn wedi marw’n llwyr. Ond heddiw, mae’n ddigwyddiad blynyddol llawn bywyd, gyda:

- lliwio i’r plant
- barbeciw
- castell neidio
- te a choffi
- cymuned, chwerthin a chydberthynas.

Os ydy’r tywydd yn caniatáu, wrth gwrs! Ac os gallwn ni adfywio’r hen draddodiad yma yn y Creunant, gallwch chi ei adfywio unrhyw le! Mae’r Ysbryd yn adfywio traddodiadau pan fyddwn ni’n fodlon camu allan mewn ffydd a gweledigaeth.

### Pentecost: galwad i fynd allan

Mae rhai’n meddwl bod ffydd yn golygu encilio – dod yn fynachod neu’n lleianod, cuddio mewn celloedd sanctaidd. Ond mae Pentecost yn dweud y gwrthwyneb. Daeth yr Ysbryd mewn *sŵn*. Daeth yr Ysbryd mewn *tân*. Daeth yr Ysbryd mewn *grym*. Mae’n ein galw i fod yn bobl sy’n cael eu gweld ac sydd yn cael eu clywed – nid fel sŵn gwag, ond fel *sŵn ffydd, gobaith a chariad*. Yn llawn ffrwythau’r Ysbryd Glan. ‘Byddwch yn dystion i mi… hyd eitha’r ddaear.’ (Actau 1:8) Rydym wedi bod yn rhy dawel am rhy hir. Mae’r byd angen clywed y *sŵn da* eto... yn dod ohonom...

### Tân sy’n parhau i losgi

Pentecost yw’r atgof nad yw Duw wedi ein gadael. Mae’n ein hatgoffa fod tân y nef yn dal i losgi – nid i’n llosgi, ond i’n goleuo; nid i’n dychryn, ond i’n grymuso. Felly gadewch inni:

- fynd allan
- bod yn weladwy
- bod yn ddewr
- bod yn Gristnogion cariadus
- bod yn ‘’bobl y *tân* a’r *sŵn’*

Boed i dân y Pentecost barhau i’n newid, i’n cynnau, i’n cynnal ac i’n hanfon allan – i’n pentrefi, i Gymru ac i’r byd. Byddwch yn Gristnogion y Pentecost: Cristnogion sydd yn llosgi gyda’i ddoniau prydferth.

**Parchg Rhys Locke**

(Nid yw’r hyn a ysgrifennir yn yr erthyglau Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr nac ychwaith y tîm golygyddol.)

Rhaglen Dysgu a Datblygu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

**Cyfres o chwe sesiwn yn archwilio gwahanol agweddau o fywyd yr eglwys.**

Cyfarfodydd ar nos Fawrth am 7:00

| | |
|---|---|
| 05/05 | **Gweinyddu Eglwys**<br>Ifan Alun Puw |
| 12/05 | **Cynnal Cyfarfod Eglwys**<br>Parchg Ddr Alun Tudur |
| 19/05 | **Beth yw Diacon?**<br>Parchg Beti-Wyn James |
| 02/06 | **Cynllunio’n Cenhadaeth**<br>Gwilym Jeffs |
| 09/06 | **Gweinyddu’r Sacramentau**<br>Parchg Carwyn Siddall |
| 16/06 | **Timoedd yn arwain yr eglwys**<br>Dan arweiniad aelodau Peniel a Bwlchycorn |

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â’r Parchedig Carwyn Siddall,

carwyn@annibynwyr.cymru

LLEOLIADAU’R HYBIAU

⇒ Emaus, Bangor, LL57 1NS
⇒ Siloh, Chwilog, LL53 6SH
⇒ Bethel, Melin y Coed, LL26 0SL
⇒ Canolfan Henblas, Y Bala, LL23 7AE
⇒ Neuadd Dinas Mawddwy, SY20 9JD
⇒ Moriah, Llanfair Caereinion, SY21 0DN
⇒ Y Neuadd, Maenclochog, SA66 7JY
⇒ Gellimanwydd, Rhydaman, SA18 2NA
⇒ Bethlehem Newydd, Pwll-Trap, SA33 4AN
⇒ Capel y Nant, Clydach, SA6 5HB
⇒ Tabernacl, Porthcawl, CF36 3DW
⇒ Capel Minny Street, Caerdydd, CF24 4ER

*Ym mha hwb fyddwch chi?*

*Croeso cynnes i bawb!*






*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# O'r Gair i'r Galon

### Pentecost

*Ar ddiwrnod dathlu Gŵyl y Pentecost roedd pawb gyda'i gilydd eto. Ac yn sydyn dyma nhw'n clywed sŵn o'r awyr, fel gwynt cryf yn chwythu drwy'r ystafell lle roedden nhw'n cyfarfod. Ac wedyn roedd fel petai rhywbeth tebyg i fflamau tân yn dod i lawr ac yn gorffwys ar ben pob un ohonyn nhw. Dyma pawb oedd yno yn cael eu llenwi â'r Ysbryd Glân ac yn dechrau siarad mewn ieithoedd eraill. Yr Ysbryd oedd yn eu galluogi nhw i wneud hynny.* (Actau 2: 1–4)

Gŵyl o lawenydd ac o ddathlu yw'r Pentecost (neu'r Sulgwyn) i Gristnogion ar hyd a lled y byd. Dathlwn fod Duw yn ein caru'n aruthrol ac yn cadw'n ffyddlon i'w addewidion a'i fod yn arfogi ei bobl i ddod â'i Deyrnas i'r byd ac i rannu'r newyddion da am Iesu mewn gair a gweithred.

Pan oeddwn i'n ifanc roeddwn yn arfer gwylio rhaglen deledu 'The A Team'. Byddai pob rhaglen ar batrwm tebyg i'w gilydd. Roedd pobl ddiniwed mewn tryblith oherwydd 'pobl ddrwg.' Gelwid ar yr 'A Team' i'w hachub. Cynlluniwyd ffordd i ddal y bobl ddrwg ac yn ddi-ffael dyna fyddai'n digwydd ar ddiwedd y rhaglen. Yna byddai cymeriad o'r enw Hannibal Smith yn dweud, 'Don't you love it when a plan comes together?'

### Trefnwyd ffordd

Yn yr Arglwydd Iesu fe drefnodd Duw ffordd i'n cymodi gydag Ef. Achoswyd rhwyg rhyngom â Duw oherwydd ein hanufudd-dod, ein trachwant a'n hawydd i addoli duwiau bychain y byd hwn. Ond yn ei gariad roedd Duw am drwsio'r rhwyg fel ei fod yn gallu byw mewn perthynas gyda ni a'n bod ninnau yn gallu byw mewn cytgord â'n gilydd. Yn Iesu gweithredwyd y cynllun rhyfeddol hwn. Wedi'r Pasg gallwn ninnau ddweud, 'Don't you love it when a plan comes together?' Mae Pedr Fardd yn mynegi'r gwirionedd ychydig yn wahanol i Hannibal Smith:

Cyn llunio'r byd, cyn lledu'r nefoedd wen,
cyn gosod haul na lloer na sêr uwchben,
fe drefnwyd ffordd yng nghyngor Tri yn Un
i achub gwael, golledig, euog ddyn.


Wedi'r atgyfodiad roedd y cynllun dwyfol wedi ei gwblhau a phopeth yn ei le ond nawr roedd rhaid ei gymhwyso i ddynoliaeth a rhannu'r newyddion da. A dyma ran bwysig o waith yr Ysbryd Glân. Duw yw'r Ysbryd Glân yn gweithredu Ei fwriadau a'i gynllun grasol. Ar ddydd y Pentecost y peth cyntaf wnaeth y Cristnogion, wedi eu llenwi â'r Ysbryd, oedd mynd allan i strydoedd Jerwsalem i rannu'r newyddion da am Iesu.

### Cymhwyso

Pan ddaeth yr Ysbryd ar y disgyblion rhoddwyd iddynt eglurder meddwl. Roeddent wedyn yn deall yn iawn yr holl bethau yr oedd Iesu wedi eu dysgu iddynt. Daethant yn ymwybodol o gariad aruthrol Duw. Deallent arwyddocâd y Groes a'r farwolaeth dros ein pechodau, yr atgyfodiad a'r gwersi i fod yn 'bysgotwyr pobl.' (Ioan 14: 26) Fe'u llanwyd gyda hyder newydd i wynebu'r byd ac awydd i rannu'r newyddion da gydag eraill. (Actau 2: 37–41) Roedd yr Ysbryd yn rhoi doniau iddynt i wneud y gwaith yn effeithiol, (Rhufeiniaid 12: 4–8; 1 Corinthiaid 12) ac yn llyfr yr Actau gwelwn sut yr aeth y newyddion da ar led.

### Cymhwysa ni i her ein hoes

Yr hyn sy'n fendigedig yw bod yr Ysbryd Glân gyda ni heddiw fel Cristnogion. Nid digwyddiad un waith ac am byth oedd y Pentecost sydd wedi darfod, ond cychwyn ar gyfnod cyffrous yn hanes pobl Dduw. Mae gwaith yr Ysbryd yn parhau heddiw yn cymhwyso'r hyn wnaeth ac a ddysgodd yr Iesu, yn adeiladu teyrnas Dduw, yn ein llenwi gyda hyder ac awydd i rannu'r newyddion da gan roi'r doniau inni wneud hynny'n effeithiol. Edrychwn ymlaen at y blynyddoedd sydd o'n blaenau fel eglwysi yng Nghymru i weld sut y bydd Duw yn gwneud ei waith ynom a thrwom yn ein gwlad.




# Croesawu a dathlu'r Sulgwyn – parhad

adnewyddu cynulleidfa i wireddu ffrwyth yr Ysbryd (Galatiaid 5: 22–23) yn eu hymlyniad wrth addewid Iesu i'w ddisgyblion ym mhob oes, 'Fe dderbyniwch nerth wedi'r Ysbryd Glân ddod arnoch …' (Actau 1: 8).

Mae emyn Dan Lynn James yn crynhoi yn wych y profiadau bendithiol a gawsom yn Efrog.

Ti yw'r Un sy'n adnewyddu,
  ti yw'r Un sy'n bywiocáu;
ti yw'r Un sy'n tangnefeddu
  wedi'r cilio a'r pellhau:
bywiol rym roddaist i'm,
bellach ni ddiffygiaf ddim.

Ti rydd foliant yn y fynwes,
  rhoddi'r trydan yn y traed;
ti rydd dân yn y dystiolaeth
  i achubol werth dy waed:
cawsom rodd wrth ein bodd,
ofn y galon friw a ffodd.

Deued fflam yr adnewyddiad,
  rhodded Gymru oll ar dân;
deuwn ato'n edifeiriol
  ac fe droir ein gwarth yn gân:
dwyfol ias, nefol flas
ddaw drwy'r Ysbryd Glân a'i ras.

(Dan Lynn James, 1928–93)

**Gwilym Wyn**

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*